**Dyddiadau ffenestri datgan diddordeb Mehefin 2023**

| **Cynllun** | **Crynodeb** | **Dyddiadau ffenestri** |
|---|---|---|
| Cynllun Cynllunio Creu Coetir | Mae'r Cynllun Cynllunio Creu Coetir yn cynnig grantiau o rhwng £1000 a £5000 i ddatblygu cynlluniau i greu coetir newydd. Ar ôl i gynllun gael ei gymeradwyo gan Cyfoeth Naturiol Cymru mi fydd yn gymwys i dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i blannu coed a ffensio (Grant Creu Coetir).<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: [https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir](https://llyw.cymru/cynllun-cynllunio-creu-coetir) | Ar agor trwy'r flwyddyn (yn amodol ar y gyllideb) |
| Grantiau bach – Amgylchedd (Carbon) | Cynllun i gefnogi amryw o ymyriadau rheolaeth tir ac i ddarparu cyfalaf ar gyfer gwelliannau amgylcheddol ar ffermydd, i wella ansawdd adnoddau naturiol Cymru.<br><br>Mae hwn yn gynllun ar wahân i gynlluniau eraill sy'n cynnig uchafswm grant o £7,500 fesul ffenestr ar gyfer Prosiectau Gwaith Cyfalaf.<br><br>Bydd y rownd hon yn canolbwyntio ar y thema Carbon.<br><br>Ni fydd parseli tir sydd eisoes yn rhan o gontractau Glastir yn gymwys.<br><br>Mwy o wybodaeth: [https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd](https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-amgylchedd) | 22ain Mai 2023 – 30ain Mehefin 2023. |
| Tyfu er mwyn yr Amgylchedd (Cnydau gorchudd yr hydref) | Mae Tyfu er mwyn yr Amgylchedd yn gynllun grant sydd ar gael i bob ffermwr cymwys yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cefnogi tyfu a defnyddio cnydau mewn ffordd sy'n gallu arwain at wella perfformiad amgylcheddol busnes fferm.<br><br>Amcanion y cynllun yw cefnogi ffermwyr i wneud y canlynol:<br><br>• lleihau allyriadau carbon a nwyon tŷ gwydr.<br>• addasu i newid yn yr hinsawdd a gwneud busnesau fferm yn fwy cadarn.<br>• gwella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.<br>• cyfrannu at wyrdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru.<br><br>Mae cnydau a gweithgareddau a gefnogir drwy'r cynllun Tyfu er mwyn yr Amgylchedd wedi cael eu nodi ymlaen llaw fel rhai sy'n cynnig manteision clir a mesuradwy i'r amgylchedd a'r busnes fferm.<br><br>Y grant mwyaf y gellir ei ddyfarnu yw **£5,000**. | 5ed Mehefin 2023 – 14eg Gorffennaf 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r grant lleiaf y gellir ei ddyfarnu yn **cyfateb i'r gyfradd dalu ar gyfer un hectar o gnwd cymwys.**<br><br>Caiff eich cais fod yn fwy na'r uchafswm grant. Os dewisir eich datganiad o ddiddordeb, bydd yr hawliad cysylltiedig yn cael ei gapio i'r uchafswm o £5,000.<br><br>Yr arwynebedd lleiaf y gellir gwneud cais amdano yw un hectar o gnydau gorchudd. Caiff yr arwynebedd lleiaf o un hectar gynnwys nifer o ardaloedd llai mewn mwy nag un parsel cae, ar yr amod nad yw arwynebedd unrhyw barsel cae unigol yn is na 0.10 hectar. Caiff ymgeiswyr rannu'r arwynebedd lleiaf o un hectar ar draws un neu fwy o barseli tir.<br><br>Am fwy o wybodaeth ewch i https://www.llyw.cymru/tyfu-er-mwyn-yr-amgylchedd | |
| Grantiau Bach – Creu Coetir | Ar gyfer plannu ardaloedd bach o goed dan 2 hectar. Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at ffermwyr a thirfeddianwyr eraill i'w hannog i blannu ardaloedd bach o goed ar dir sydd wedi'i wella'n amaethyddol neu sydd o werth amgylcheddol isel yng Nghymru, felly ni fydd angen cynllun creu coetir wedi'i ddilysu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y ceisiadau hyn.<br><br>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £8.32/m.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael yma: https://www.llyw.cymru/grantiau-bach-creu-coetir | 24ain Gorffennaf 2023 – 15fed Medi 2023 |
| Grant Creu Coetir | Ar gyfer cynlluniau mwy (fodd bynnag, dim ond 0.25ha yw'r ardal leiaf, sy'n cynnwys parseli 0.1ha man lleiaf) a'r rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Grantiau Bach – Creu Coetir.<br><br>Mae angen Plan Creu Coetir ymlaen llaw. Mae cyllid ar gael drwy'r **Cynllun Cynllunio Creu Coetir.**<br><br>Nid yw'r cynllun yn golygu colli taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), a chynigir taliadau cynnal a chadw a thaliadau premiwm am 12 mlynedd, a chyfradd ffensio uwch o £8.32/m.<br><br>Mae gwybodaeth bellach ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen: https://www.llyw.cymru/grant-creu-coetir | 24ain Gorffennaf 2023 – 15fed Medi 2023 |

| | | |
|---|---|---|
| Cynllun Sbarduno Busnesau Bwyd | Mae'r cynllun hwn yn cynnig cymorth ar gyfer buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol mewn gweithgareddau prosesu sy'n dod â manteision clir a mesuradwy i'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru a'i gadwyni cyflenwi.<br><br>**Rydych chi'n gymwys i ymgeisio:**<br><br>Os ydych chi'n **fusnes sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW** sy'n ymgymryd â phrosesau cynradd a/neu eilaidd mewn cynnyrch amaethyddol ac anamaethyddol, megis:<br><br>• cwmnïau cyfyngedig preifat a chyhoeddus<br>• unig fasnachwyr a phartneriaethau<br>• busnesau fferm sy'n prosesu cynnyrch amaethyddol<br>• busnesau newydd, gan gynnwys hen fusnesau sy'n dechrau arallgyfeirio a busnesau sydd newydd eu sefydlu<br>• cwmnïau nid-er-elw, cwmnïau cydweithredol a mudiadau cymunedol, cyhoeddus a gwirfoddol<br><br>**Costau Cymwys**<br>Gellir defnyddio'r cymorth o dan y cynllun hwn ar gyfer asedau tiriaethol megis prynu a/neu ddatblygu tir, adeiladau, peiriannau, a chyfarpar, yn ogystal ag asedau anniriaethol fel meddalwedd gyfrifiadurol, hawliau patent, a thrwyddedau a ffioedd ar gyfer gwasanaethau technegol ac ymgynghori, yn amodol ar gyfyngiadau:<br><br>Y grant mwyaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£5,000,000**<br><br>Y grant lleiaf a roddir fesul menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw **£20,000**<br><br>Mwy o wybodaeth:<br>https://llyw.cymru/cynllun-sbarduno-busnesau-bwyd-canllawiau-html | Wedi agor ar 17eg Tachwedd 2022 a bob 4 wythnos detholir buddiolwyr llwyddiannus i'w gwahodd i gyflwyno cais llawn. Bydd y ffenestr yn aros ar agor nes bod y gyllideb a ddyrannwyd wedi'i defnyddio. |